CYNGOR CYMUNED LLANFIHANGEL Y PENNANT

**Cofnodion o gyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd Nos Fawrth y 9fed o Fehefin 2026 am 7.00yh yn y Ganolfan, Abergynolwyn.**

Presennol; Cyng. Miriam Webb, Eleri Puw, Elwyn Evans, Steve Lewis, Emrys Thompson, Gwynedd Roberts, Robert D Jones, Dylan Jarman; Cyng Beth Lawton (Cyngor Gwynedd) a Huw T Jones (Clerc).

1. Estynwyd groeso cynnes i bawb gan y Cadeirydd y Cyng Miriam Webb i'w chyfarfod llawn cyntaf fel Cadeirydd. Nid oedd unrhyw ddatganiadau o ddiddordeb.
2. Nodwyd nad oedd unrhyw gais i gael cyflwyniadau gan aelodau o'r cyhoedd ar fater ar yr Agenda.
3. **Cadarnhawyd gofnodion y Cyfarfod Blynyddol a gynhaliwyd ar y 12fed o Fai** ar gynnig Cyng. Gwynedd Roberts a'i eilio gan Cyng Emrys Thompson.
4. **Materion yn codi**

a) **Materion Priffyrdd/llwybrau**.

Trafodwyd problem ceir yn parcio o flaen tafarn y Railway a mynedfa Stryd Llanegryn, ac ymateb Andrew Gregson, Uwch Beiriannydd Traffig. Gwelwyd nad oedd ateb hawdd, ac awgrymwyd cael lluniau fel tystiolaeth. Hefyd gofyn a oedd gan Gyngor Gwynedd awgrym ar sut i ddatrys hyn.

Roedd camfa wrth fynedfa Coed Cedris angen sylw, a nodwyd problemau campervans yn parcio mewn culfannau heb awdurdod, ac yn gadael sbwriel ar eu holau

b) **Safle treftadaeth/Celf Cyhoeddus** – adroddwyd y gohebiaeth diweddaraf gan Bet Huws, a chychwyn y broses cael caniatad cynllunio.

c) **Stryd Tanybryn** – trafodwyd y diweddaraf, a bod raid dechrau y broses o drefnu cyfarfod, a byddai'r Clerc yn cysylltu gyda Swyddfa Aelodau Senedd Cymru yn y lle cyntaf.

**d) Cynllun trafnidiaeth Cymunedol** – nodwyd y diweddaraf, a chyfarfod gafwyd 1.06.26.

**e) Cronfa Cefnogi Cynghorau Cymuned** – Roedd tri amcangyfrif i law bellach am sleid yn y cae chwarae drwy law Emrys. Penderfynwyd gwneud y cais gyda amcangyfrif GL Jones am £10,250 (TAW yn ychwanegol) , er nad hwn oedd y rhataf ar bapur. Roedd GL Jones yn Gwmni Cymreig, wedi gwneud gwaith o'r blaen, ac roedd y safon llawer uwch na'r amcangyfrifon eraill. Roedd y ffurflen wedi ei danfon mewn drafft i bawb ar 8.06.26, a chytunodd pawb efo'r cynnwys.

**f) Coed i'w torri yn wal yr afon ger Heol y Dwr** – byddai'r Clerc yn cysylltu gyda enwau y 3 a roeddwyd i gael amcangyfrif i wneud y gwaith yma ym mis Hydref eleni.

**5. Materion Cynllunio**

. **NP5/67/55B – Newid defnydd adeilad allanol yn dy anedd (Dosbarth defnydd C6 – llety gwyliau tymor byr) – Ty Gwyn, Abergynolwyn LL36 9UP –** roedd hwn wedi ei ddanfon allan i bawb 18.05.26, ac nid oedd gwrthwynebiad.

6. **Materion Cyllid.**

a) **Nodwyd balansau** y cyfrifon o'r datganiadau, sef Cyfri cyfredol 19.05.26 - £6881.29, a cyfri Business Reserve 29.05.26 - £16,681.20. Trafodwyd y mandate banc, a byddai Emrys Thompson yn cysylltu i drafod yr angen i ychwanegu enwau i arwyddo ar y cyfrif, ac i ddechrau y broses o gael bancio ar-lein.

**b) Anfonebau**; - ar gynnig Cyng Elwyn Evans a'i eilio gan Cyng Emrys Thompson, cytunwyd i dalu y canlynol;

- Anfoneb Esgobaeth Bro Ystummaner am £364 – sef cyfraniad am waith adnewyddu i'r lychgate yr Eglwys yn Llanfihangel y Pennant.

b) **Ceisiadau am arian**

- Kids Cancer Charity – penderfynwyd peidio cyfrannu.

**7. Adroddiad Cynghorydd Beth Lawton (Cyngor Gwynedd)**

Cyfeiriodd Cyng Beth Lawton at ei gwaith yn yr ardal, yn cynnwys cyfarfod efo'r heddlu, cyfarfod yng nghyswllt Ysbyty Tywyn, a chyfeiriod ar holiadur gyda'r ardoll ymwelwyr, a phwysleisiodd pwysigrwydd ymateb.

8. **Adroddiad Cyng. Elwyn Evans , cynrychiolydd Un Llais Cymru.**

Nod oedd adroddiad y tro hwn, ond cyfeiriodd at gyfarfod ar yr 19eg Mehefin yn Llanelwedd.

**9. Gohebiaeth.**

a) **Materion mynwent Llanfihangel y Pennant** - roedd Cyng Robert D Jones wedi cyfarfod Ellen Cockburn yng nghyswllt claddedigaethau 'mewn gorchudd'. Yn dilyn trafodaeth, penderfynwyd nad oedd gan y Cyngor Cymuned unrhyw wrthwynebiad mewn agwyddor, ond byddai rhaid cysylltu efo'r Clerc a thalu ffioedd fel yn arferol. Addawodd Cyng Robert D Jones gysylltu ymhellach a hi.

b) **Nodwyd sesiynau hyfforddiant Un Llais Cymru,** a byddai'r Clerc y neu dosbarthu i'r Cynghorwyr fel arfer. Adroddodd Cyng Miriam Webb am gwrs da iawn yr oedd wedi mynychu.

c) Nodwyd gadarnhad gan **RoSPA** am archwiliad yn Mehefin ar gost o £83

d) Roedd gwybodaeth gan Gyngor Gwynedd am ymgynghoriad gyda'r cynllun **Ardoll Ymwelwyr**, ac roedd y Clerc wedi rhannu. Roedd cyfarfod yn Dolgellau ar y 3ydd Gorffennnaf.

e) Roedd gobehiaeth am ail ymgynghoriad gan Fwrdd Iechyd Hywel Dda ynglyn a **Gwasanaethau Stroc yn Bronglais**, ac roedd cyfarfod yn y Plas Machynlleth ar 30 Mehefin rhwng 2-7pm. Byddai'r Clerc yn rhannu.

f) Roedd gwybodaeth am gŵyn efo priffyrdd, sef cerrig ar y gulfan ger tro B4405 Minffordd. Gwelwyd mai mater i'r Adran Briffordd Cyngor Gwynedd oedd hyn, a byddai'r Cyng Dylan Jarman yn ymdrin a'r mater.

**10. Unrhyw fater arall**

- Roedd angen pads newydd i'r Defibrillator, ac yn dro y Cyngor Cymued y tro hwn i dalu y gost. Cytunwyd i hyn.

**DYDDIAD CYFARFOD NESAF; Y GANOLFAN, ABERGYNOLWYN NOS FAWRTH 14eg Gorffennaf 2026 , 7.00y.h.**

**..........................................................................................................................**

**Minutes of the Council Meeting held on Tuesday, 9 June 2026 at 7:00 pm at the Community Centre, Abergynolwyn**

**Present:** Cllrs. Miriam Webb, Eleri Puw, Elwyn Evans, Steve Lewis, Emrys Thompson, Gwynedd Roberts, Robert D. Jones, Dylan Jarman; Cllr Beth Lawton (Gwynedd Council) and Huw T. Jones (Clerk).

1. The Chair, Cllr Miriam Webb, extended a warm welcome to everyone at her first full meeting as Chair. There were no declarations of interest.
2. It was noted that no requests had been received from members of the public to make presentations on matters on the agenda.
3. **The minutes of the Annual Meeting** held on 12 May were confirmed, proposed by Cllr Gwynedd Roberts and seconded by Cllr Emrys Thompson.

## 4. Matters Arising

### a) Highways/Footpaths

The issue of vehicles parking outside the Railway Inn and at the entrance to Llanegryn Street was discussed, together with the response from Andrew Gregson, Senior Traffic Engineer. It was acknowledged that there was no easy solution, and it was suggested that photographs be obtained as evidence. It was also asked whether Gwynedd Council had any suggestions for resolving the matter.

A stile at the entrance to Coed Cedris required attention. Problems were also noted with campervans parking in passing places without permission and leaving litter behind.

### b) Heritage Site/Public Art

The latest correspondence from Bet Huws was reported, together with the commencement of the planning permission process.

### c) Tanybryn Street

The latest developments were discussed, and it was agreed that the process of arranging a meeting should begin. The Clerk would contact the office of Members of the Senedd (Welsh Parliament) in the first instance.

### d) Community Transport Scheme

The latest position was noted, including a meeting held on 1 June 2026.

**e) Community Council Support Fund**

Three quotations had now been received for a slide for the playing field through Emrys. It was agreed to submit the application using the quotation from GL Jones for £10,250 (plus VAT), even though it was not the lowest on paper. GL Jones was a Welsh company, had previously undertaken work for the Council, and the quality was considered significantly higher than the other quotations. A draft of the application form had been circulated to all members on 8 June 2026, and everyone agreed with its contents.

**f) Trees to be Cut Along the River Wall Near Heol y Dŵr**

The Clerk would contact the three individuals previously identified to provide quotations for carrying out this work in October this year.

## 5. Planning Matters

**NP5/67/55B** – Change of use of an outbuilding to a dwelling (Use Class C6 – short-term holiday accommodation) – Ty Gwyn, Abergynolwyn LL36 9UP.

This application had been circulated to all members on 18 May 2026, and no objections were raised.

## 6. Financial Matters

**a)** Account balances were noted from the statements as follows:

- Current Account (19.05.26): £6,881.29
- Business Reserve Account (29.05.26): £16,681.20

The bank mandate was discussed. Emrys Thompson would make contact to discuss the need to add additional signatories to the account and to begin the process of obtaining online banking.

**b) Invoices**

On the proposal of Cllr Elwyn Evans, seconded by Cllr Emrys Thompson, it was agreed to pay the following:

- Invoice from the Bro Ystummaner Diocese for £364, being a contribution towards renovation work to the church lychgate at Llanfihangel y Pennant Church.

**c) Funding Requests**

- Kids Cancer Charity – it was decided not to make a contribution.

## 7. Report of Cllr Beth Lawton (Gwynedd Council)

Cllr Beth Lawton referred to her work in the area, including a meeting with the police, a meeting concerning Tywyn Hospital, and a questionnaire relating to the Visitor Levy. She emphasised the importance of responding to the consultation.

## 8. Report of Cllr Elwyn Evans, One Voice Wales Representative

There was no formal report on this occasion, but he referred to a meeting to be held on 19 June in Llanelwedd.

## 9. Correspondence

**a) Llanfihangel y Pennant Cemetery Matters**

Cllr Robert D. Jones had met with Ellen Cockburn regarding “shroud burials.” Following discussion, it was agreed that the Community Council had no objection in principle, but the Clerk would need to be contacted and the usual fees paid. Cllr Robert D. Jones agreed to discuss the matter further with her.

**b)** One Voice Wales training sessions were noted, and the Clerk would continue to circulate details to councillors as usual. Cllr Miriam Webb reported that she had attended a very worthwhile course.

**c)** Confirmation had been received from RoSPA regarding an inspection in June at a cost of £83.

**d)** Information had been received from Gwynedd Council regarding consultation on the Visitor Levy scheme, which the Clerk had already circulated. A meeting would be held in Dolgellau on 3 July.

**e)** Correspondence had been received regarding a second consultation by Hywel Dda University Health Board concerning stroke services at Bronglais. A meeting would be held at Plas Machynlleth on 30 June between 2:00 pm and 7:00 pm. The Clerk would circulate the details.

**f)** Information had been received regarding a highways complaint concerning stones on the passing place near the B4405 Minffordd junction. It was agreed that this was a matter for Gwynedd Council's Highways Department, and Cllr Dylan Jarman would deal with the issue.

## 10. Any Other Business

- New pads were required for the defibrillator, and it was the Community Council’s turn to meet the cost. This was agreed.

---

**DATE OF NEXT MEETING:**
**The Community Centre, Abergynolwyn – Tuesday, 14 July 2026 at 7:00 pm.**